YSGOL YR HOLL SAINT YR EGLWYS YNG NGHYMRU
POLISI DERBYNIADAU

Mae Ysgol yr Holl Saint, Gresffordd yn ysgol gynradd a gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru. Nid oes gan ysgolion yr eglwys dalgylchoedd, parthau na ffiniau ac maent yn agored i unrhyw blentyn beth bynnag fo'u lliw, rhyw neu enwad crefyddol.

Derbynnir plant i'r dosbarth meithrin yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Gwneir trefniadau i'r plant ymweld â'r ysgol cyn ymuno â'r dosbarth meithrin yn y mis Medi. Gwahoddir rhieni disgyblion newydd y dosbarthiadau meithrin a derbyn i'n Noson Gyflwyno ym mis Mehefin/Gorffennaf i gyfarfod â'r holl staff a siarad gydag athro/athrawes newydd y plentyn am y flwyddyn sydd i ddod.

Hoffwn atgoffa rhieni bod yr ysgol hon yn cael ei chynorthwyo'n wirfoddol gan yr Eglwys yng Nghymru a bod y llywodraethwyr a'r staff yn ceisio annog ethos Cristnogol a gofalgar yn yr ysgol. Mae gwerthoedd crefyddol yn chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae addoli ar y cyd ac Addysg Grefyddol yn chwarae rhan bwysig yn y diwrnod ysgol.

Y corff llywodraethol sy'n gyfrifol am dderbyniadau i'r ysgol hon a gynorthwyir yn wirfoddol.

Rhoddir blaenoriaeth i: -

1. Blant rhieni sy'n byw ym mhlwyf eglwysig Gresffordd.

2. Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol, o'r dosbarth derbyn hyd flwyddyn 5 ar yr adeg y gwneir y cais.

3. Plant y mae eu rhieni'n gysylltiedig â gwaith Eglwys Blwyf Gresffordd neu'n addoli yno.

4. Plant y mae eu rhieni'n gysylltiedig â gwaith eglwys blwyf gyfagos neu'n addoli yno, a hon yw'r ysgol agosaf a gynorthwyir.

5. Plant y mae eu rhieni'n gysylltiedig â gwaith neu addoli enwad Cristnogol arall, a hon yw'r ysgol agosaf a gynorthwyir.

6. Plant sydd â thraddodiad teuluol o fynychu'r ysgol hon.

7. Agosrwydd yr ysgol at gyfeiriad parhaol y plentyn ac nid, er enghraifft, cyfeiriad parhaol gwarchodwr plant neu nain neu daid.

8. Unrhyw ddisgyblion eraill.

Os bydd yr ysgol yn derbyn gormod o geisiadau, bydd y ceisiadau'n cael eu trin gan ddefnyddio'r meini prawf uchod.

Gall rhieni sy'n anfodlon â phenderfyniad y corff llywodraethol i beidio â derbyn plentyn wneud apêl yn erbyn y penderfyniad hwnnw. Rhaid apelio o fewn pedwar diwrnod ar ddeg o dderbyn penderfyniad y corff llywodraethol. Dylid cyflwyno apeliadau'n ysgrifenedig i Gadeirydd y Llywodraethwyr, trwy law Ysgol yr Holl Saint. Nid yw addysg feithrin yn orfodol ac nid oes gan rieni hawl i apelio dan ddeddfwriaeth addysg os bydd eu cais am le meithrin yn aflwyddiannus.

Nid yw derbyn plentyn i'r dosbarth meithrin yn sicrhau y cânt eu derbyn i'r dosbarth derbyn.